



Ein cyf/Our ref VG/07230/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

2 Awst 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-05-896 ynghylch Ward 35 Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Rwy'n nodi ac yn deall y pryderon am y posibilrwydd o drosglwyddo cleifion i Ysbyty Cwm Cynon, a'r materion ymarferol allai godi i rai teuluoedd.

Sefydlwyd Ward 35 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a Ward 7 yn Ysbyty Cwm Cynon tua saith mlynedd yn ôl fel rhan o raglen strategol y Bwrdd Iechyd i foderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn. Y bwriad oedd darparu gofal i gleifion oedd angen eu derbyn i'r ysbyty am gyfnod hwy o driniaeth cyn eu rhyddhau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud bod nifer y bobl sydd angen y math hwn o ofal hirdymor mewn ysbyty wedi gostwng yn sylweddol ers hynny am amrywiol resymau, gan gynnwys y buddsoddiad a wnaed i gryfhau gwasanaethau cymunedol yn agosach i'r cartref a datblygiadau mewn triniaethau. Ar gyfer trigolion Merthyr Tudful, mae'n debygol y bydd nifer y cleifion sydd angen gofal o'r fath mewn ysbyty yn llai na deg y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu a chynnal gwasanaethau gofal iechyd diogel a chynaliadwy ar gyfer y boblogaeth leol, o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Er mwyn cyflawni hyn, maent wedi nodi model mwy holistig o ofal yng Nghwm Cynon, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaeth gofal dydd estynedig i gefnogi cleifion allan o'r ysbyty. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i edrych ar yr opsiwn o gyfleuster tai gofal ychwanegol ac ymestyn gwasanaethau i gleifion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan gydnabod y bydd rhaid i deuluoedd deithio pellter hwy i ymweld â Chwm Cynon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu gwasanaeth cludiant i'w helpu, sy'n cael ei ddarparu gan yr elusen Hafal fel rhan o gynlluniau Ward 35. Mae'r Bwrdd Iechyd nawr yn edrych ar gyfleoedd i ymestyn y gwasanaeth hwn i deuluoedd.

Rwyf wedi cael fy sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn llwyr ddeall yr effaith y mae trosglwyddo gofal yn ei chael ar gleifion ac ar aelodau o'r teulu, ac mae wedi ymrwymo i barhau i drafod gyda'r cleifion yn y dyfodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services